



Carchardai ei Mawrhydi Brynbuga a Phrescoed

Adroddiad Blynyddol

2014-2015

Adran 1

RÔL STATUDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL

Mae Deddf Carchardai 1952 a Deddf Lloches a Mewnfudo 1999 yn gofyn i bob carchar ac IRC i gael ei fonitro gan Fwrdd annibynnol, a benodir gan yr Ysgrifennydd Cartref / y Gweinidog dros Gyfiawnder, gan aelodau o'r gymuned ble mae'r carchar neu ganolfan wedi'i lleoli.

Mae'r Bwrdd yn benodol gyfrifol am: -

1. Fodloni ei hun ynghylch y driniaeth drugarog a chyfiawn y rhai a gedwir yn y ddalfa o fewn ei carchar ac ystod a digonolrwydd y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau.
2. Rhoi gwybod yn brydlon i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu unrhyw swyddog y mae ef wedi dirprwyo awdurdod iddo fel y mae'n barnu sy'n briodol, am unrhyw bryderon sydd ganddo.
3. Adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor dda mae'r carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno a pha effaith mae'r rhain yn eu cael ar y rhai sydd yn y ddalfa.

Er mwyn galluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol mae gan ei aelodau hawl i gael mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar a hefyd at gofnodion y carchar.

Adran 2

CYNNWYS

Disgrifiad o'r Carchardai	Adran 3
Crynodeb Gweithredol	Adran 4
Cydraddoldeb a Chynhwysiant	Adran 5
Addysg, Dysgu a Sgiliau	Adran 6
Gofal Iechyd ac Iechyd Meddwl	Adran 7
Gweithgarwch Pwrpasol	Adran 8
Adsefydlu	Adran 9
Diogelwch a Dalfa Fwy Diogel	Adran 10
Gwasanaethau Preswyl	Adran 11
Rhaglenni	Adran 12

Amser allan o'r Gell	Adran 13
Enghreifftiau o Ragoriaeth	Adran 14
Meysydd Pryder	Adran 15
Ystadegau'r Bwrdd	Adran 16

Adran 3

DISGRIFIAD O'R CARCHAR

3.0 Mae Carchar Brynbuga a Phrescoed wedi ei lleoli ar dri safle. Mae Carchar Brynbuga yn garchar Categori C yn nhref Brynbuga, mae Carchar Prescoed yn garchar Categori D yn ardal Prescoed, ac mae fferm carchar newydd Cilwrgi ychydig filltiroedd i ffwrdd yng Nghoed-y-Paen. Mae rhai o'r carcharorion o Brescoed yn gweithio ar y fferm. Caiff y carcharorion ym Mrynbuga a Phrescoed eu cefnogi gan Swyddogion Personél, gweithwyr Achos, Adran Seicoleg, tîm Camddefnyddio Sylweddau, y Gaplaniaeth, Adran Gofal Iechyd a Thîm Adsefydlu. Mae Gofal Iechyd yn cynnig cyfleuster gofal dydd ym Mrynbuga a Phrescoed, ond nid oes gwllau ar gyfer cleifion mewnol. Mae gan Garchardai Brynbuga a Phrescoed lyfrgelloedd a champfeydd, ac mae gan Prescoed gapel aml-ffydd.

3.1 Agorodd Carchar Brynbuga yn 1844 ac mae'n adeilad hen ffasiwn gyda thri phrif adenydd yn deillio o bwynt reolaeth ganolog. Y tro diwethaf iddo grogi carcharor oedd ym 1961, ac fe roedd yn llety i Rudolph Hess ar gyfer rhan o'r Ail Ryfel Byd. Mae bellach yn garchar Categori C gwrywaidd sy'n dal carcharorion agored i niwed: gyda'r mwyafrif yn droseddwr rhyw. Codwyd y Llety Tybiannol Ardystiedig (CNA) o 266 i 272 ym mis Tachwedd 2014. Mae'r Rhaglen Trin Troseddwr Rhyw (SOTP) ar gael i bob carcharor, ac mae yna Adran Addysg ffyniannus.

Amcanion y carchar yw dal carcharorion yn ddiogel, ac i ddarparu sefydliad trefnus lle mae carcharorion yn cael eu trin yn drugarog a gyda gwedduster a pharch. Bwriad y gyfundrefn strwythuredig yw paratoi carcharorion ar gyfer rhyddhad diogel, a lleihau'r risg o ail-droseddu. Mae gweithdai gwaith saer, gosod brics a phlastro yng Ngharchar Brynbuga, ond mae'n cael ei ystyried y dylai'r rhain symud i Brescoed neu Cilwrgi lle mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant adsefydlu yn cael ei wneud.

3.2 Mae Carchar Prescoed wedi ei leoli yng nghefn gwlad agored ar safle Sefydliad Troseddwr Ifanc blaenorol a agorodd ym 1939, tua thair milltir o Frynbuga. Mae bellach yn garchar ailsefydlu Categori D a chododd y CNA o 213 i 230 erbyn mis Ebrill 2014. Mae'r gyfundrefn ym Mhrescoed wedi ei gynllunio i adsefydlu ac addysgu trwy gynllun dedfryd strwythuredig a chynllun ailsefydlu; ac i hyrwyddo gostyngiad mewn risg o garcharorion yn ail-droseddu pan fyddant yn dychwelyd i'w cymunedau. Mae cyfleoedd ar gael ar gyfer addysg, hyfforddiant a gwaith lleoliadau, ac adnoddau yn cael eu dyrannu i adsefydlu carcharorion. Mae'r gyfundrefn a sefydlwyd ym Mhrescoed wedi cynnwys amrywiaeth o ddiwydiannau a gweithgareddau ac mae'n parhau heddiw wrth iddo edrych i gynyddu nifer y lleoliadau gwaith addas.

Gall y Bwrdd adrodd mai ychydig iawn o ddianc a methiannau ROTL oedd yno yn ystod y cyfnod. Mae hyn yn adlewyrchu cyfradd llwyddiant y mae'r carchar yn naturiol yn falch ohono, yn enwedig wrth ystyried faint o drwyddedau dros dro sy'n cael eu cyhoeddi bob blwyddyn. Mae pob carcharor sy'n dianc yn cael eu dychwelyd i amodau caeëdig. Mae absenoldebau anawdurdodedig eraill yn amodol ar y broses ddyfarnu ac mae camau gweithredu cadarn yn cael eu cymryd (e.e. colli breintiau).

3.3 Mae fferm Cwilgiri yn cynnwys 460 erw, o'r rhain mae 160 erw yn goetir, yn ogystal ag amrywiaeth o dai allan. Mae gan y fferm fuches laeth ffyniannus a haid o ieir. Mae nifer o gyfleoedd hyfforddi ar gyfer carcharorion, e.e. parlwr godro, rheoli buches, hwsmonaeth anifeiliaid, ffermio tir â, gweithgareddau melin lifio, sgiliau sylfaenol ar beiriannau fferm. Ar gyfartaledd, mae rhwng 15 a 25 o garcharorion yn gweithio ac yn hyfforddi ar y fferm bob dydd. Yn dilyn y cyfnod adrodd diwethaf bu newidiadau yn rheolaeth y fferm, ac

mae'r rhagolygon ar gyfer hyfforddiant ar y fferm wedi gwella'n fawr. Mae'r fferm wedi ei ddynodi yn ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSI).

Adran 4

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 4.1 Mae'r newidiadau sylweddol i uchafu effeithlonrwydd o fewn cyllidebau, fel yr adroddwyd yn adroddiad y llynedd, yn ymddangos fel eu bod wedi'u cwblhau ac yn y rhan fwyaf o achosion yn llwyddiannus gyda'r carchar yn derbyn graddau uchel. Mae newidiadau i leoliad a chynnwys staff wedi gwella'n amlwg ar y cyfan gyda chyfathrebu i garcharorion a staff yn dda. Mae dyfodiad ceisiadau am newid wedi bod yn llwyddiant.
- 4.2 Mae newidiadau i gyfrifoldebau cyllidebol wedi arwain at rai oedi wrth weithredu'r gofyniad.
- 4.2 Mae'r bwrdd yn yng nghanol ymgyrch recriwtio ac er ei fod yn llwyddiannus ar y cyfan mae'r oedi yn broblem. Mae'r bwrdd 5 aelod yn fyr ar hyn o bryd [ond yn disgwyl i 3 ddechrau yn y cyfnod adrodd newydd]

Adran 5

CYDRADDOLDEB & CYNHWYSIANT

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf roedd un cyfarfod Amrywiaeth a chydaddoldeb wedi digwydd. Roedd y pwyllgor yn monitro a rheoli materion yn ymwneud â thriniaeth gyfartal carcharorion ac roedd yn cynnwys staff, y swyddog gwedduster, y swyddog cydraddoldeb, aelod IMB a charcharorion sy'n cynrychioli grwpiau lleiafrifol yn y carchar. Yn dilyn hynny mae'r swyddogion gwedduster a chydaddoldeb wedi adleoli i rolau eraill yn y carchar. Yn y cyfamser, mae'r ddau aelod o staff wedi parhau gyda'u dyletswyddau statudol ond ar raddfa lai.

Mae Carchar Brynbuga wedi parhau i gynnal nifer o fforymau amrywiaeth. Mae'r gwaith o drefnu'r rhain ynghyd â diweddarau'r hysbysfyddau wedi cael ei gynorthwyo gan ymrwymiad cynrychiolwyr y carcharorion.

Ymdriniwyd â materion sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn gan y cyn swyddog cydraddoldeb mewn cydweithrediad â'r tîm rheoli lle bo hynny'n briodol. Nid yw'r IMB wedi derbyn unrhyw geisiadau yn sgil diffyg y strwythur.

Ble mae adroddiadau digwyddiadau gwahaniaethu [DIRFs] wedi cael eu derbyn, mae'r rhain wedi cael eu hymdrin gan y cyn swyddog cydraddoldeb. Mae'r IMB wedi monitro'r rhain ac wedi cymeradwyo'r nifer priodol.

Adran 6

ADDYSG, DYSGU A SGILIAU

Mae'r ddau garchar yn cynnig amrywiaeth o addysg, dysgu a sgiliau sydd, ynghyd â chyfleoedd gwaith yn rhoi cyfleoedd da i garcharorion ddatblygu unrhyw ddiffyg yn eu gwylbodaeth a'u profiad.

Mae rhai anawsterau wedi codi gyda newidiadau i amodau cyflogaeth staff ond ymddengys bod y rhain yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

Mae pwyslais yn cael ei roi ar hyfforddiant wedi'i gynllunio i wneud rhai sy'n gadael y carchar yn fwy cyflogadwy ac er bod y bwrdd yn croesawu hyn, dylid hefyd roi rhywfaint o ystyriaeth i anghenion hyfforddiant/addysg adsefydlu.

Adran 7

GOFAL IECHYD

Yn dilyn trosglwyddo cyfrifoldeb dros ofal iechyd ym Mrynbuga a Phrescoed o'r carchardai i'r awdurdod iechyd lleol a grybwyllwyd yn adroddiad y llynedd. Mae'r gwasanaeth gofal iechyd wedi cael ei hailfodelu sydd wedi arwain at newidiadau yn y gweithdrefnau a chyfrifoldebau staff. Mae 2 weithiwr gofal iechyd llawn amser wedi cael eu hychwanegu at y staff nyrsio. Mae'r adran bellach yn gyflawn ar ôl cyfnod sylweddol o brinder staff. Erbyn hyn, mae yna hefyd dechnegydd fferyllol amser llawn sy'n seiliedig ym Mrynbuga.

Yn anffodus yn ystod y flwyddyn bu 4 marwolaeth yn y ddalfa. Roedd un adroddiad yn cynnwys argymhellion i weithdrefnau sydd erbyn hyn wedi cael eu rhoi ar waith. Doedd dim argymhellion mewn dau ac nid yw'r pedwerydd adroddiad gan yr Ombwdsmon ac Arolygiaeth Iechyd Cymru wedi cael ei dderbyn eto.

Pryd bynnag bod angen i garcharor o Frynbuga adael y carchar i fynychu apwyntiad ysbyty mae'n rhaid iddynt fel arfer fod yng nghwmni 2 swyddog sy'n arwain at bwysau staffio yn y carchar gan arwain at gyfnodau o gloi celloedd. I leddfu hyn mae cynlluniau yn eu lle i ofyn am wasanaethau ffisiotherapydd cyrhaeddiad a fydd yn ymweld â'r carchar, a chyflwyno ymgynghoriadau cyswllt fideo gyda staff yr ysbyty.

Sicrhawyd cyllid o £15k ar gyfer hyfforddi staff a charcharorion dethol mewn cymorth cyntaf ac adnabod materion iechyd meddwl.

Yn ystod y flwyddyn mae nifer y ceisiadau IMB yn ymwneud â gofal iechyd wedi bod yn isel ac yn adlewyrchu'r berthynas waith da sy'n bodoli rhwng yr adran gofal iechyd a'r carcharorion.

Yn olaf, mae'n werth nodi y dyfarnwyd gwobr nyrs y flwyddyn [adran oedolion] i'r pennaeth gofal iechyd Louise Rooney gan Goleg Brenhinol y Nyrsys yng Nghymru yn ogystal â dyfarniad ysgoloriaeth sylfaen Betsi Cadwaladr

Adran 8

GWEITHGAREDD PWRPASOL

Ym Mrynbuga, Prescoed a'r fferm mae staff wedi bod yn gweithio'n galed i gyflwyno trefn newydd o weithgaredd pwrpasol.

Bu cynnydd sylweddol wrth ddatblygu dysgu a sgiliau ar draws y tri safle gyda disgwyl gweithrediad llawn yn fuan iawn. Y gobaith yw cael cynllun gweithredu/gwella clir ar waith yn ystod y misoedd nesaf tra'n parhau i adeiladu ar lwyddiant presennol megis glanhau, arlwyo, garddio ac ailgylchu.

Ers penodi rheolwr fferm newydd, mae wedi cynnal nifer o ddiwyddiadau llwyddiannus ac wedi sefydlu llu o gyfleoedd hyfforddi.

Adran 9

ADSEFYDLU

Yn ystod y flwyddyn mae lleoliadau gwaith wedi parhau i gael ei rheoli gan y tîm lleoli cymunedol ac mae'r ansawdd a'r nifer wedi bod yn cynyddu ac mae hyn yn plesio'r bwrdd. Bydd hyn heb os yn creu rhagolygon cyflogaeth i'r rhai sy'n cael eu rhyddhau

Gyda'r dyfodol yn cael eu cymryd drosodd gan y CRC a rhai cwestiynau ynglŷn â'u cyfrifoldebau, mae'r bwrdd yn pryderu na fydd y cynnydd hwn yn parhau yn ystod unrhyw gyfnod pontio

Ym Mrynbuga mae hyn yn dibynnu ar gynllunio dedfrydau ac ymyriadau i atal aildroseddu a nodi anghenion ac ymyriadau priodol neu raglenni triniaeth fel y manylir yn adran 12

Adran 10

DIOGELWCH

Mae'r IMB yn mynychu Cyfarfodydd Diogelwch misol ym Mrynbuga a Phrescoed, pan bygythiadau allweddol a'r camau gweithredu gofynnol yn cael eu trafod. Gan eu bod yn garchardai Categori C a Chategori D nid yw'r blaenoriaethau diogelwch yr un fath bob amser. Mae Brynbuga yn garchar Di-Adsefydlu sy'n rheoli carcharorion VP & SOTP gyda nifer ohonynt yn destun MAPPA. Mae Prescoed yn rheoli ei phoblogaeth er mwyn eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau o'r carchar yn llwyddiannus. Mae cyfran fawr o garcharorion yn ymwneud â gwaith y tu allan i'r carchar, felly mae Diogelwch yn hanfodol i fonitro eu gweithgareddau dyddiol a sicrhau bod cyn lleied unrhyw o eitemau na chaniateir yn dod i mewn i'r carchar. Blaenoriaeth allweddol ar gyfer y ddau garchar yw diogelu'r cyhoedd. Mae diogelwch ar y ddau safle, yn cael ei reoli'n dda a'i fonitro yn y fath fodd bod tueddiadau a bygythiadau yn cael eu hadnabod ar y cyfle cyntaf.

CYNLLUNIAU WRTH GEFN

Mae Brynbuga a Phrescoed yn cynnal Cynlluniau Wrth Gefn. Nid yw'r cynlluniau yn cael eu harfer fel mater o drefn, fodd bynnag, caiff ymarferion eu trefnu pan fydd pwysau eraill yn caniatáu. Dros y blynyddoedd diwethaf mae nifer y staff wedi cael ei leihau gan adael cyfundrefn lai a mwy effeithlon, felly mae rhai pethau yn colli eu blaenoriaeth yn y gwaith o redeg y carchardai o ddydd i ddydd. Mae'r IMB wedi arsylwi ar rai ymarferion ac wedi eu plesio gyda'r gweithredu a sut roedd y pwyntiau dysgu yn cael eu cofnodi. Ym Mhrescoed, os oes Methiant ROTL neu fod rhywun yn dianc, defnyddir y Cynllun Wrth Gefn i reoli'r digwyddiad.

DALFA MWY DIOGEL (BRYNBUGA)

Mae Dalfa FMwy Diogel yn parhau i gael ei fonitro'n dda yng Ngharchar Brynbuga. Cynhelir Cyfarfodydd Chwarterol pan mae swyddogion, IMB, Gwrandawyr a'r Samariaid yn gallu rhannu a thrafod unrhyw faterion sy'n berthnasol i Ddalfa Fwy Diogel. Mae'n flin gan y Bwrdd adrodd yn ystod y cyfnod adrodd ar gyfer yr Adroddiad hwn y bu pedwar Marwolaeth yn y Ddalfa. Mae pob un wedi cael eu harchwilio'n llawn, ac mae unrhyw faterion a gododd wedi cael eu hymdrin/rhoi ar waith neu mae'r pwyntiau dysgu wedi cael eu rhaedru i bawb dan sylw. Gwnaethpwyd cynigion priodol o gefnogaeth i staff a charcharorion yn dilyn pob digwyddiad. Maent yn dal i ddisgwyl am ganlyniad y farwolaeth ddiweddaraf a bydd camau gweithredu pellach yn cael eu rhoi ar waith fel y bo'n briodol.

Mae rhwng 10 a 15 Gwrandawyr ym Mrynbuga (yn dibynnu ar ollyngiadau a hyfforddiant ac ati) Yn ystod cyfnod o dri mis yn ystod yr amser adrodd roedd eu gweithgaredd fel a ganlyn: -

Nifer yr Oriau Gwrando	258
Nifer y Galwadau	304
Nifer y Gwrandawyr	319
Oriau yn y Gell Gwrando	170
Meddyliau Hunanladdol	12
Hunan-niwed	13
Bwlio	7
Gofidus	108
Cyffredinol	153
Ymwneud â Sefydlu	48

Mae rheolaeth Ddalfa Fwy Diogel yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gyda'r bwriad o gael craffu manylach a mwy o atebolrwydd a bydd yn cael ei fonitro gan yr IMB a bydd mwy o fanylion yn

Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf. Mae'r Bwrdd yn teimlo fod Dalfa Fwy Diogel yn cael ei reoli'n dda ym Mrynbuga.

ARWAHANU

Fel carchar sy'n delio gyda Charcharorion Agored i Niwed a Throseddwyr Rhyw, nid yw Brynbuga yn cefnogi Uned Arwahanu.

Adran 11

Gwasanaethau Preswyl

11.1 Bwyd Mae bwyd yn cael ei baratoi a'i goginio ar gyfer y ddau safle'r carchar ym Mhrescoed. Mae chwe aelod o staff a hyd at 22 o garcharorion. Ar hyn o bryd mae 16 o garcharorion yn cael eu cyflogi. Mae'r grŵp hwn yn gydwybodol ac yn mynychu ond grwpiau eraill wedi bod yn llai felly a gall hyn gael effaith andwyol ar lefelau gwasanaeth. Mae'r bwrdd yn monitro'r gegin yn wythnosol.

Fel y nodwyd yn yr adroddiad Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi 2013, bu materion ansawdd bwyd sylweddol yn y gorffennol. Mae'r Llywodraethwr presennol wedi gwneud pwynt o fynd i'r afael â hyn ac ym mis Mai 2015 archebodd:

- Adolygiad gan gymheiriaid gan y rheolwr arlwyo yng Ngharchar Caerdydd.
- Adolygiad mewnol o reoli arlwyo.
- Cefnogaeth gan staff asiantaeth, yn ôl yr angen.
- Bod y swyddog cydraddoldeb newydd yn cael y dasg o fonitro'r mater ac ymgynghori â charcharorion.

Enghraifft o ragoriaeth. Ers rhoi'r cyfarwydddebau hynny ar waith, mae'n amlwg bod sylwadau cadarnhaol am y swm ac ansawdd y bwyd wedi cynyddu a bod cwynion i staff a'r IMB wedi lleihau. Yn amlwg mae uwch reolwyr yn barod i gydnabod problemau ac ymdrin yn rhagweithiol â hwy. Yn ogystal, mae'r fwydlen newydd archebu ymlaen llaw 5 dewis 'Cymru Gyfan' bellach ar gael ers mis Mai 2015.

Pwyntiau eraill i'w nodi:

- Mae carcharorion yn gallu gweithio ar gyfer NVOs tra'n gweithio yn y gegin ac mae'r staff yn ymddangos yn awyddus i helpu.
- Ymdopodd y gegin yn llwyddiannus gyda Ramadan drwy ddarparu bwyd mewn bocsys wedi'u hinswleiddio a'u selio.

- Cynhaliwyd arolwg bwyd tua 18 mis yn ôl. Nawr bod y gegin yn setlo i mewn i'w drefn newydd, bwriedir cynnal arolwg arall yn gynnar ym mis Awst 2015.
- **Mae'r gyllideb arian dyddiol fesul carcharor yn dynn iawn.** Mae'r staff yn gwneud yn dda i gynhyrchu prydau boddhaol o fewn y cyfyngiad hwn gan fod yn rhaid i'r arian hwn hefyd ddarparu ar gyfer y rhai sydd ar ddiet arbennig/ethnig/crefyddol.

11.2 Adran Arlwygo. Mae cegin Prescoed tua blwydd oed. Bu nifer o broblemau cychwynnol ac ymddengys bod y gosodwr Kier wedi bod yn rhyfeddol o araf yn mynd i'r afael â hwy. Mae'r bwrdd wedi cael eu hysbysu bod gwaith i ddatrys y problemau wedi cael ei lesteirio oherwydd nad oedd y contractwr yn derbyn cyfrifoldeb o dan warant. Er enghraifft:

- Mae gorchudd draen diffygiol yn yr ardal paratoi bwyd a gyflwynodd materion lechyd/Diogelwch ac Atebolrwydd clir wedi cael ei ddatrys yn rhannol yn dilyn cyfarfod safle. Mae gwaith trwsio dros dro anfodddhaol ac sydd bellach yn ymddatod wedi cael ei wneud.
- Mae nifer o faterion iechyd a diogelwch eraill heb eu datrys; yn fwyaf arwyddocaol mae'r rhain yn cynnwys gorchuddion draeniau o flaen ffyrnau poeth sy'n achosi i'r staff a'r carcharorion faglu.

11.3 Adeiladau: Mae Brynbuga yn garchar rheiddiol 19^{eg} Ganrif, er hyn mae'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn lân ac yn daclus. Mae'n anffodus nad yw ei defnydd presennol yn caniatáu i garcharorion fwyta gyda'i gilydd. Mae'r Llywodraethwr wedi crybwyll y gallai fod yn bosibl (nawr bod diwydiannau wedi cael gofod penodol ar wahân) i ddefnyddio rhai o'r coridorau ar gyfer y diben hwn - cred y Bwrdd bod hwn yn syniad da.

11.4 Adeiladau: Mae Prescoed yn garchar agored modern. Yn gyffredinol mae'r naw uned un llawr yn cael eu cynnal yn dda. Mae'r llall, Uned Lester sydd â dwy lawr, yn edrych yn fwy di-raen ac mae nifer cyfyngedig o gawodydd (4 ar gyfer 40 o garcharorion) ac mae'r Bwrdd yn deall bod y rhain yn aml wedi blocio ac mae un ohonynt yn aml yn methu â gweithio.

Mae'r Bwrdd yn deall bod y Carchar yn cael ei ddyrannu cronfa wrth gefn o £26,000 i dalu am gymhlethdodau cynnal a chadw - y gair teg mwyaf elusennol gyfer y ddarpariaeth hon yw "annigonol".

Adran 12

RHAGLENNI BRYNBUGA

Mae'r rhaglenni canlynol i drin troseddwyd rhyw [SOTP] yn cael eu darparu ym Mrynbuga. Caiff y rhain eu hwyluso gan dim ymroddedig a hynod wybodus o seicolegwyr. Maen nhw'n gweithredu mewn carchardai eraill yng Nghymru ac yn y gymuned yn gyffredinol.

Mae rhaglenni craidd i drin **troseddwyr rhyw** yn galluogi i gyfranogwyr ddisgrifio eu troseddu yn onest ac archwilio'r esboniadau am eu hymddygiad. Mae dwy raglen ar gael bob blwyddyn ariannol ar gyfer grwpiau o naw o ddynion. Mae pob rhaglen yn para chwe mis ac yn rhaglen sylfaen i'r sawl sydd o risg canolog neu uwch.

Datblygydd dod yn berson newydd o'r rhaglen graidd. Mae'n cynnig y cyfle i gyfranogwyr adolygu eu hanes bywyd o blentyndod a nodi ble gychwynnodd patrymau di-fudd o feddwl, teimlo ac ymddygiad. Mae un rhaglen yn cael ei chyflwyno bob blwyddyn ac yn rhaglen lefel sylfaen gyfatebol ar gyfer dynion sy'n cael eu herio'n ddeallusol. Cynigir y rhaglen i grwpiau o wyth o ddynion.

Cynllun yw Byw fel person newydd wedi'i gynllunio ar gyfer graddedigion o'r rhaglen Dod yn berson newydd y mae eu lefel risg yn ganolog neu'n uwch.

Mae'r Rhaglen **rhywiol iach** wedi'i chynllunio ar sail un i un ar gyfer dynion sydd ag anghenion triniaeth arbennig gyda diddordeb rhywiol.

Rhaglen estynedig chwe mis ar gyfer **troseddwyr rhyw** wedi'i thargedu at y rhai sydd wedi cwblhau'r rhaglen graidd yn llwyddiannus. Mae'r dynion a ddewiswyd ar gyfer y rhaglen hon yn tueddu i fod yn risg ystadegyn uchel iawn ac sydd ag anghenion triniaeth eithriadol. Ar hyn o bryd mae naw o ddynion ar y rhaglen hon.

Prescoed

Does dim ymyriad grŵp yn y carchar bellach. Mae adnoddau cyfyngedig ar gyfer gwaith unigol arall yn y ddau safle ac o'r herwydd mae'n cael ei gynnig os caiff ei gyfeirio gan y bwrdd parôl.

Er nad yn rhaglen, mae cwrs unigryw i Gymru wedi dod i'r amlwg yn Mhrescoed. Drwy'r asiantaeth dda o wasanaeth cyffuriau ac alcohol Gwent grŵp o ddynion wedi cymryd rhan mewn Diploma City and Guilds mewn cwrsela ar gyfer dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol. Mae hwn wedi bod yn ymrwymiad wythnosol ac wedi cael ei anrhydeddu gan bawb. Mae cwrs yn cael ei gynllunio ar gyfer hwyr 2015.

Adran 13

AMSER ALLAN O'R GELL

Mae hyn wedi lleihau yn ddiweddar oherwydd nifer yr hebryngwyr yn mynd allan oherwydd pryderon iechyd gwael gan arwain at fwy o amser yn cloi'r celloedd.

BRYNBUGA

PRESCOED

08.00 - 18.00

Symud yn rhydd ar ôl Cofrestr 06.00

Dychwelyd i'w Uned bersonol erbyn 22.00

Adran 14

ENGHREIFFTIAU O RHAGORIAETH

- 1] Mae llawer o newid wedi bod i'r rheoli a llywodraethu yn ystod y flwyddyn. Mae'r bwrdd yn credu bod hyn wedi cael ei drin yn dda ac yn y rhan fwyaf o achosion yn gydymdeimladol gyda chyfranogiad llawn â'r staff
- 2] Mae'r newid yng nghyfundrefn y gegin wedi bod yn effeithiol ac effeithlon ar ôl problemau cychwynnol
- 3] Mae parhad y dyddiau teulu wedi cael ei groesawu a'i werthfawrogi gan y carcharorion.
- 4] Mae penodi rheolwr fferm ac arbenigol garddwriaethol wedi darparu cyfleoedd hyfforddi gwerthfawr.
- 5] Cyflwynwyd y gweithdrefnau ROTL newydd tra'n lleihau'r achosion o ddianc/methiannau
- 6] Y gwaith cyffuriau ac alcohol arloesol a dreialwyd yn y carchar gan arwain at NVQs

Adran 15

MEYSYDD PRYDER

1. Fel y nodwyd yn adroddiad y llynedd, mae carcharorion ym Mrynbuga yn dal yn gorfod bwyta eu pryddau yn eu celloedd. Mae'r llywodraethwr yn edrych ar bosibiliadau ar gyfer nodi meysydd y gellid eu rhyddhau i liniaru'r sefyllfa hon
2. Mae'r lefelau staffio tynn yn gadael ychydig iawn o slac yn y system i ddarparu ar gyfer digwyddiadau na ellir eu rhagweld. Er enghraifft, os yw carcharor ym Mrynbuga yn gorfod mynd i'r ysbyty, gyda hebrwng cyson, gall hyn effeithio'n ddifrifol ar gyfundrefnau eraill yn ôl yn y carchar. Mae'r posibilrwydd o gael gwasanaethau gofal iechyd fel ffisiotherapi yn fewnol yn cael ei ystyried. Tra bod popeth yn mynd yn dda mae'r trefniadau cyfredol yn ddigonol, ond mae pryder y gallai digwyddiad difrifol arwain at ganlyniadau mawr. (Mae'r sylw hwn yn dangos yr angen am ddiweddariadau rheolaidd ar gynllunio wrth gefn ac ymarferion.)
3. Mae'r newidiadau gyda gwasanaethau contractio yn bryder gyda gwaith cynnal a chadw, gyda CRCs yn cael eu cyflwyno i mewn i'r carchardai. Mae'r bwrdd yn bwriadu monitro'n agos perfformiad y contractwyr/darparwyr gwasanaethau hyn i sicrhau nad oes gostyngiad yn y cyfleusterau i'r carcharorion.
4. Efallai y bydd y prinder staff prawf yn effeithio ar y gallu i gynhyrchu adroddiadau OAsys yn amserol.
5. Ar y cyfan, nid oes gan y Bwrdd unrhyw bryderon difrifol o ran sut mae Brynbuga a Phrescoed yn gweithredu.

Adran 16

<u>YSTADEGAU'R BWRDD</u>	
Y Cyflenwad a argymhellir ar gyfer y Bwrdd	15
Nifer yr aelodau o'r Bwrdd ar gychwyn y cyfnod adrodd	11
Nifer yr aelodau o'r Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd	10
Nifer yr aelodau newydd yn ymuno o fewn y cyfnod adrodd	1
Nifer yr aelodau yn gadael o fewn y cyfnod adrodd	1
Nifer y Cyfarfodydd Bwrdd yn ystod y cyfnod adrodd	12
Cyfanswm nifer yr ymweliadau â'r Sefydliad	294
Cyfanswm nifer yr Adolygiadau Arwahanu	Dd/B
Cyfanswm nifer yr Adolygiadau Arwahanu a fynychwyd	Dd/B
Dyddiad yr Adolygiad Perfformiad Tim Blynyddol	Hydref 2014

Ceisiadau i'r IMB yn ystod y cyfnod adrodd

COD	PWNC	BLWYDDYN
A	Llety	2
B	Dyfarniadau	4
C	Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (gan gynnwys. Crefydd)	0
D	Addysg/cyflogaeth/hyfforddiant	3
E1	Teulu / Ymweliadau gan gynnwys post a ffôn	0
E2	Cyllid / Cyflog	2
F	Yn ymwneud â Bwyd / y Gegin	6
G	Yn ymwneud ag Iechyd	1
H1	Eiddo yn y sefydliad presennol	2
H2	Eiddo yn ystod trosglwyddo i mewn yn y sefydliad arall	1
H3	Ffreutur, cyfleusterau, siopa catalog, Argos	2
I	Yn ymwneud â dedfryd. (ROTL, parôl, dyddiadau rhyddhau, aildroseddu ac ati	2
J	Pryderon Staff/Carcharorion gan gynnwys bwlio	2
K	Trosglwyddiadau	5
L	Amrywiol	7
	Cyfanswm nifer y Ceisiadau IMB	39
	O'r cyfanswm - y nifer Mynediad Cyfrinachol oedd	0